# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES

## (Ystafelloedd Pwyllgor A/B - Canolfan Ddinesig Castell-nedd - Canolfan Ddinesig Castell-nedd)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 12 Mawrth 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr**: | O.S.Davies, J.Miller, D.Whitelock, A.N.Woolcock, C.Edwards, W.F.Griffiths a/ac H.C.Clarke |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, J.Hodges, D.Harding, M.Hayes, Chele.Howard, Ms.S.Jenkins, L.Thomas, V.Smith, Karen.Wedmore, J.Woodman-Ralph a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards |

1. **DATGANIADAU O FUDD**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C Galsworthy | Parthed: Yr Adroddiad Sefyllfa Taliadau Uniongyrchol gan ei bod yn derbyn Taliadau Uniongyrchol ar gyfer aelod o'r teulu. |

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion yr ymgynghoriad ar Gyllideb ac Arbedion Drafft y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/21 ar 23 Ionawr 2020.

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 19 Rhagfyr, 2019. Rhoddwyd eglurhad ar gais yr aelodau ar "*85% (11/13) yr achosion a archwiliwyd*."

Mewn 85% (11/13) o'r achosion a archwiliwyd, roedd y gweithiwr a oruchwyliwyd wedi mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi yn ystod yr un cyfnod ag y cynhaliwyd y tair sesiwn oruchwylio ddiwethaf. O ganlyniad, roedd hyn yn galluogi'r goruchwyliwr/gweithiwr dan oruchwyliaeth i fyfyrio ar sut yr oedd yr hyfforddiant wedi effeithio ar ei arfer yn ystod y sesiynau goruchwylio.

Yn dilyn hynny, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y llythyr a amlygwyd yng nghofnodion y cyfarfod ar 19 Rhagfyr 2019 (Cofnod Rhif 6 – Diweddariad ar Gynllun Strategol Anhwylder y Sbectrwm Awtistig/Anhwylderau Niwroddatblygiadol (Cynllun Strategol ASD/NDD) yn barod i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

3. **<u>MESURAU LEFEL UCHEL Y GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC A'R GWASANAETHAU I OEDOLION - Y 3YDD CHWARTER (EBRILL 19 - RHAGFYR 19)</u>**

Derbyniwyd gwybodaeth am Ddata Mesurau Lefel Uchel y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a’r Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer Cyfnod y 3ydd Chwarter (Ebrill – Rhagfyr 2019) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:

- Mae ystadegau salwch hirdymor yn nodi straen fel rheswm - ai oherwydd y gwaith yw hwn neu oherwydd rhesymau personol? Esboniodd swyddogion bod y ddau reswm yn achosi hyn ond os nodir eu bod yn gysylltiedig â'r gwaith, gweithredir proses y cytunwyd arni i reoli a lliniaru hyn.
- Pam cafwyd cynnydd mewn nifer y gweithwyr asiantaeth yn 2019 o'i gymharu â 2018? Y rheswm am hyn oedd bod arian ychwanegol yn cael ei dderbyn i gyflogi therapyddion galwedigaethol ychwanegol.
- Pam mae canran y goruchwyliaethau a gwblhawyd o fewn yr amserlen wedi gostwng? Roedd hyn o ganlyniad i'r swyddi gwag a salwch ychwanegol ond roedd ymarfer ailfodelu yn y gwasanaethau i oedolion yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a fyddai'n arwain at liniaru hyn. Byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i'r aelodau maes o law.

- Beth oedd y meini prawf a'r broses ar gyfer ychwanegu/tynnu plentyn oddi ar y gofrestr Amddiffyn Plant, gan ei bod yn ymddangos ei fod wedi cynyddu ychydig. Esboniwyd bod llawer o ffactorau yn cael effaith ar hyn, ac y penodwyd Swyddog Diogelu dynodedig a oedd yn goruchwylio'r holl achosion hyn. Roedd rhai pobl ifanc a oedd wedi'u symud o'r cartref ac wedi ymgartrefu mewn gofal maeth wedi aros ar gofrestrau amddiffyn plant a chofrestrau derbyn gofal. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o achosion dros 12 mis. Cafodd y penderfyniad i dynnu plentyn/person ifanc o'r gofrestr ei wneud gan banel amlasiantaeth a oedd yn cynnwys addysg, yr heddlu ac unrhyw un sy'n ymwneud â'r achos. Archwilir achosion sydd wedi'u dadgofrestru a chânt eu rhoi yn ôl ar y gofrestr os bydd angen. Mae Prif Swyddog yr ardal honno hefyd yn monitro cyfradd y newidiadau.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam nad oedd gan dros hanner yr achosion o'r Gwasanaethau i Oedolion ddadansoddiad clir o'r wybodaeth a rennir, fel y nodwyd yn adroddiad yr archwilwyr. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn o ganlyniad i broses weinyddol a bod gweithdrefn newydd wedi'i rhoi ar waith.
- Unwaith eto, mewn perthynas ag adroddiad yr archwilwyr, gofynnwyd pam nad oedd rhai ffeiliau'n cynnwys cerdyn meddygol wrth eu derbyn, a oedd yn dangos nad oedd yr wybodaeth hon ar gael yn ystod yr archwiliad neu nad oedd cerdyn cyfeirio'n bodoli, felly byddai angen adolygu hyn mewn polisi. Esboniodd swyddogion y byddent yn gofyn am eglurder gan y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am y cerdyn meddygol ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

## 4. <u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

<u>Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a’r Gwasanaethau i Oedolion – Adroddiad Perfformiad y 3ydd Chwarter (Ebrill 2019 – Rhagfyr 2019)</u>

Cafodd y pwyllgor drosolwg o Berfformiad y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a’r Gwasanaethau i Oedolion – y 3ydd Chwarter (Ebrill – Rhagfyr 2019) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:

- Pa gynnydd y mae Opsiynau Tai neu'r Swyddog Ataliol wedi'i wneud gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC). Mae'r data'n nodi mewn 140 o achosion na rwystrwyd pobl rhag dod yn ddigartref. Dywedodd swyddogion eu bod yn cysylltu â landlordiaid cymdeithasol a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Tai Tarian a Pobl ond y broblem oedd bod diffyg darpariaeth llety 1 ystafell wely. Nododd yr aelodau fod cyllid ar gael am flwyddyn yn unig ar gyfer y Swyddog Ataliol. Esboniodd swyddogion y byddai'n cael ei adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw ac y byddant yn ceisio cyllid ychwanegol i barhau â'r gwaith.
- Gofynnwyd pam y mae'r ffordd y cafodd data ei gofnodi wedi newid. Esboniodd y swyddog bod y rhain yn ddangosyddion y mae Llywodraeth Cymru’n gofyn am wybodaeth amdanynt. Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ei ddata ei hun y mae swyddogion yn ei fonitro.
- Yn dilyn hyn, gofynnwyd a oedd unrhyw ddata ar gael ar nifer yr asesiadau gofalwyr y gofynnir amdanynt. Bydd y swyddogion yn ymchwilio ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

<u>Strategaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot</u>

Cafodd yr aelodau drosolwg o Strategaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd y pwyllgor yn falch bod fersiwn hawdd ei ddarllen wedi'i chynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod heddiw ond gofynnodd i fersiwn Saesneg syml gael ei chynhyrchu yn y dyfodol. Roedd geiriau o hyd yn y fersiwn hawdd ei ddarllen yr oedd angen eu hesbonio ymhellach.

Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r hyn a olygir gan y datganiad "Identify young people who need a transition assessment but are not receiving children’s services". Esboniodd swyddogion, pan fydd person ifanc yn dod yn oedolyn, fod angen asesiad gwahanol yn ystod y cyfnod pontio.

Cafwyd trafodaeth ar yr hyn y gellid ei wneud i nodi mwy o ofalwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan y nodir yn yr adroddiad mai dim ond 441 o'r 20,000 oedd wedi'u nodi. Esboniodd swyddogion fod amrywiaeth o resymau pam roedd y ffigur hwn yn isel. Nid yw nifer sylweddol o ofalwyr am i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymwneud â nhw. Nid yw rhai yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael nac yn ei ddeall. Gwnaed llawer o waith i gynyddu ymwybyddiaeth a byddai hyn yn parhau fel un o flaenoriaethau'r gwasanaeth ond nododd yr aelodau nad oedd unrhyw gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hyn.

Esboniodd swyddogion hefyd y gwnaed llawer o waith gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid ac ysgolion i nodi gofalwyr ifanc nad ydynt yn nodi'u hunain. Gofynnwyd i aelodau a oedd yn gweithredu fel llywodraethwyr ysgol mewn cyfarfodydd llywodraethwyr ysgol ganolbwyntio ar y mater hwn a nodi faint o ofalwyr sy'n blant sydd yn eu hysgolion.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Diweddariad Blynyddol ar y Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl</u>

Derbyniwyd trosolwg o Gynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2017/20 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Mynegodd yr aelodau bryder oherwydd er nad oedd y Grant Cefnogi Tai wedi gostwng, nid oedd wedi newid dros y 4 blynedd diwethaf ac arweiniodd hynny at ostyngiad wrth ystyried chwyddiant. Ar hyn o bryd, roedd Llywodraeth Cymru’n edrych ar y meini prawf sy'n ymwneud â'r Grant Cefnogi Tai a allai effeithio ar CBSCNPT. Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffaith bod angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch pa gymorth oedd ar gael i helpu defnyddwyr gwasanaeth i gael Credyd Cynhwysol. Yn ogystal, roedd y ffurflen gais bellach ar-lein, a oedd yn ei gwneud yn anos i rai ei chwblhau. Esboniodd swyddogion fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio gyda'r Cydlynwyr Ardaloedd Lleol i helpu i ddarparu cymorth i bobl y mae ei angen arnynt.

Gofynnodd yr aelodau beth oedd ar waith i gefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl os nad oedd cwnsela ar gael. Roedd

Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yn trafod hyn gyda'r Gwasanaeth Iechyd ar hyn o bryd.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Polisi Gwahanu Hillside

Cafodd y pwyllgor drosolwg o Bolisi Gwahanu Hillside fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Llongyfarchodd yr aelodau'r swyddogion ar bolisi rhagorol ac ystyriol.

Yn ogystal, roedd yr aelodau'n falch o sefydlu'r Bwrdd Diogelu.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2019/2**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/2020.

6. **EITEMAU BRYS**

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, codwyd y mater canlynol fel eitem frys i'w thrafod yn ystod cyfarfod heddiw yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

Y diweddaraf am Coronafeirws

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai ddiweddariad llafar i'r aelodau ar y sefyllfa bresennol a pha fesurau oedd eu hangen i alluogi darpariaeth gwasanaethau yn ystod yr argyfwng hwn.

7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel

a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

8. **ADRODDIAD SEFYLLFA TALIADAU UNIONGYRCHOL (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

Derbyniodd y pwyllgor drosolwg o'r Sefyllfa Taliadau Uniongyrchol fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol. Roedd yn cynnwys y broses o wneud cais am Daliadau Uniongyrchol, monitro'r broses a data, monitro perfformiad a'r gwersi a ddysgwyd ac astudiaethau achos.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.
TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**